# Adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2019

**Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a’r Môr**

# Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau a chyflawni cynlluniau gwella amgylcheddol. Rydym wedyn yn cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol blynyddol hwn o'u perfformiad.

Rydym ni, fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, yn asesu perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru er mwyn cyflwyno darlun o sut mae cwmnïau yn gwneud cynnydd yn erbyn amrediad o dargedau mesuradwy (metrigau) rydym yn eu hegluro isod. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru Welsh Water[1] ("Dŵr Cymru") yn ystod 2019.

Mae rhan o ardal weithredu Dŵr Cymru yn Lloegr; mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio gweithrediadau yn Lloegr ac mae wedi cyfrannu at y broses asesu perfformiad.

Rydym hefyd yn asesu perfformiad Hafren Dyfrdwy, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

# Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2019

Mae'r tabl drosodd yn dangos sut y perfformiodd Dŵr Cymru yn erbyn chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn 2019, gyda thri metrig perfformiad gwyrdd a thri melyn. Mae gan bob metrig drothwyon y cytunwyd arnynt (sy'n newid bob pum mlynedd er mwyn ysgogi gwelliannau'n barhaus).

Roedd sgôr seren gyffredinol Dŵr Cymru yn cynnal statws 'da' 3-seren y cwmni. Mae hyn yn golygu bod ei berfformiad cyffredinol wedi sefydlogi, yn dilyn gostyngiad i sgôr o 2-

[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: DWR [sic] CYMRU CYFYNGEDIG, rhif cwmni 02366777, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Heol Pen-twyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol, CF46 6LY.

seren yn 2017. Fodd bynnag, mae canlyniadau 2019 yn dangos bod y cwmni'n dal ymhell o ennill sgôr 4-seren. Rydym yn disgwyl y bydd y cwmni yn gwneud pob ymdrech i wella'r metrigau melyn i wyrdd ac anelu at sgôr 4-seren yn 2020.

| **Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol** | **Canlyniad 2019 (statws metrig)** |
|---|---|
| Metrig 1: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | 26 (Melyn) |
| Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth) | 0 (Gwyrdd) |
| Metrig 3: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr) | 98.2 (Melyn) |
| Metrig 4: Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd | 73 (Melyn) |
| Metrig 5: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | 100 (Gwyrdd) |
| Metrig 6: Mynegai diogelwch cyflenwad | 100 (Gwyrdd) |

### Allwedd: statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Melyn | Perfformiad yn agos at, neu ychydig yn is, na'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

## Rhagor o wybodaeth

- Mae **Atodiad 1** yn esbonio'r fethodoleg rydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni
- Mae **Atodiad 2** yn dangos sut mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ers 2011

# Prif negeseuon ar berfformiad

Y metrigau gwyrdd:

- ni chafwyd unrhyw achosion difrifol o lygredd carthffosiaeth yn 2019 felly gwnaeth y metrig hwn wella o felyn i wyrdd
- cyflawnwyd 100% o gynlluniau gwella eu Cynllun Rheoli Asedau
- y sgôr mynegai diogelwch cyflenwad oedd 100.

Ond mae dal angen gweithio ar y metrigau melyn:

- cafwyd y nifer isaf o ddigwyddiadau carthffosiaeth isel (Categori 3) hyd yn hyn ond nid oeddent yn ddigon isel i gyflawni statws gwyrdd

- syrthiodd perfformiad hunanadrodd ychydig, sy'n golygu ei fod wedi syrthio o statws gwyrdd i statws melyn
- roedd cydymffurfiaeth ag amodau trwydded rhifyddol yn cyflawni statws melyn ac y mae dal ymhell i ffwrdd o gyflawni statws gwyrdd.

Yn ychwanegol i'r metrigau, rydym yn bryderus bod nifer y digwyddiadau dŵr glân wedi cynyddu ymhellach am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

# Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddwyr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero.


## Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Cafodd Dŵr Cymru y nifer lleiaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Uchel-Isel (Categori 1-3) hyd yn hyn yn 2019 (94). Roedd pob un o'r 94 o ddigwyddiadau yn ddigwyddiadau Isel (Categori 3); nid oedd un digwyddiad carthffosiaeth Uchel (Categori 1 neu 2).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl hyd y carthffosydd, felly yn 2019 aseswyd bod y cwmni â statws melyn ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-3, yn ôl hyd y carthffosydd | 26 (Melyn) |

Fel y dengys y graff isod, gwelwyd gostyngiad cyson o un flwyddyn i'r llall yn nifer y digwyddiadau llygredd rhwng 2009 a 2014. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ostyngiad sydd wedi'i weld ers 2014, o 108 o ddigwyddiadau'n gyffredinol i 94 yn 2019.





| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – mawr (Cat 1) | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Cat 2) | 8 | 7 | 2 | 6 | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| Isel (Cat 3) | 304 | 242 | 236 | 193 | 120 | 104 | 107 | 105 | 101 | 98 | 94 |

Rydym yn pryderu o hyd ynghylch y gostyngiad araf mewn digwyddiadau carthffosiaeth dros y pum mlynedd diwethaf (gostyngiad o 14% yn unig rhwng 2015 a 2019) ac yn parhau i herio'r cwmni ar lefel ei uchelgais o ran lleihau nifer y digwyddiadau i sero yn yr tymor hwy. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i leihau digwyddiadau carthffosiaeth i 72 erbyn 2025, a fyddai'n ostyngiad sylweddol o 23% – rydym yn pryderu na fydd Dŵr Cymru yn gallu cyflawni hyn ar sail ei berfformiad hyd yn hyn oni wneir gwelliannau sylweddol.

# Digwyddiadau llygredd dŵr glân

Er nad oedd yn rhan o fetrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol hyd 2021, rydym hefyd yn monitro nifer y digwyddiadau dŵr glân. Mae'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau cyflenwi dŵr, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (prif gyflenwad dŵr y gellir ei yfed).




| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – mawr (Cat 1) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Cat 2) | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Isel (Cat 3) | 14 | 10 | 6 | 6 | 2 | 4 | 0 | 6 | 11 | 20 | 26 |

Mae'n destun pryder bod nifer y digwyddiadau dŵr glân wedi cynyddu am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gyda chyfanswm o 28 yn 2019 (2 Uchel / Categori 1/2 a 26 Isel / Categori 3). Mae angen i ni weld gwelliant mewn perfformiad dŵr glân yn 2020 cyn iddo gael ei gynnwys yn ffurfiol ym metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o 2021 ymlaen. Fel y mae'r graff uchod yn dangos, cynyddodd nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr glân o 0 yn 2015 i 28 yn 2019.

Mae'r cwmni wedi trafod cynlluniau gwella ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o faes gwastraff dŵr mewn gweithgareddau dŵr glân ers nifer o flynyddoedd, ond nid yw hyn wedi arwain at welliant mewn perfformiad dŵr glân. Yn 2018, gwnaethom ofyn i Dŵr Cymru ymchwilio i'r rhesymau dros y cynnydd diweddar hwn a rhoi cynllun gwella ar waith. Fodd bynnag, mae'r gwaethygu parhaus mewn perfformiad yn golygu ein bod bellach yn disgwyl camau brys â ffocws. Rydym yn disgwyl i'r cwmni ddarparu cynllun lleihau llygredd dŵr glân. Dylai'r cynllun fod yn uchelgeisiol; rydym yn disgwyl y bydd y cwmni yn lleihau nifer yr holl ddigwyddiadau (dŵr glân a charthffosiaeth) i sero yn y tymor hir, heb unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn y tymor byr.

## Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)

Mae'r ail fetrig yn canolbwyntio ar nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff uchod, nid chafwyd unrhyw ddigwyddiadau carthffosiaeth Uchel (Categori 1 a 2) yn 2019, felly mae'r metrig hwn wedi gwella o felyn i wyrdd.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth difrifol a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-2, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y carthffosydd | 0 (Gwyrdd) |

Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru barhau â'i ymdrechion i sicrhau nad oes unrhyw achosion difrifol o lygredd carthion yn 2020 a chynnal y perfformiad da hwn.

# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflwyno trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunanfonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfiaeth. Rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth â holl amodau'r drwydded.

## Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)


Yn 2019, roedd Dŵr Cymru yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr 98.2% o'r amser. Roedd hwn yn debyg iawn i'w berfformiad o 98% yn 2018.

Gwelwyd diffyg cydymffurfio mewn chwech o'r 564 o weithfeydd trin carthion ac mewn pump o'r 48 o weithfeydd trin dŵr a weithredir gan Dŵr Cymru.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** | % | Canran y gydymffurfiaeth ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau | 98.2 (Melyn) |

Mae cydymffurfiaeth 98.2% y cwmni yn golygu bod metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi aros ar felyn am yr ail flwyddyn, ond nid yw'r duedd yn sefydlog, fel y dangosir gan y graff isod. Roedd y perfformiad gweithfeydd trin carthion yn well na gweithfeydd trin dŵr yn 2018, ond roedd hyn wedi'i wyrdroi yn 2019. Mae hyn yn siomedig gan y cafodd dysgu o arfer gorau o reoli gweithfeydd trin carthion ei gyflwyno i weithfeydd trin dŵr yn 2019, ond yn hytrach na gweld y ddwy ochr yn gwella, mae perfformiad gweithfeydd trin carthion wedi gostwng bellach. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru ymchwilio i pam y digwyddodd hyn.

Rydym yn parhau i fod yn siomedig bod gan Dŵr Cymru statws melyn o hyd ar gyfer y metrig hwn. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru barhau i chwilio am gyfleoedd i fonitro a mynd ati'n rhagweithiol i nodi gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr lle gallai eu perfformiad fod yn syrthio, gyda'r nod o gyflawni cydymffurfiaeth o 100% (gwyrdd) â'r metrig hwn cyn gynted â phosibl. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.




| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr sy'n methu | 9 | 10 | 3 | 10 | 10 | 5 |
| Nifer y gweithfeydd trin carthion sy'n methu | 5 | 8 | 3 | 10 | 2 | 6 |
| % y gydymffurfiaeth gyffredinol wrth ollwng | 97.8 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.2 |

## Cydymffurfio ag amodau trwydded disgrifiadol gollyngiadau dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol megis cynnal a chadw, rheoli ac adrodd. Yn gyffredinol, mae cydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr sydd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol yn 93% (ceir 50 nad ydynt yn cydymffurfio o gyfanswm o 762).

O'r 62 o achosion o ddiffyg cydymffurfio y gwnaethom eu nodi, roedd gan ddau y potensial ar gyfer effaith amgylcheddol sylweddol (CCS2)[2] o ganlyniad i'r diffyg hwn ac felly roedd modd rhagweld effaith amgylcheddol sylweddol yn rhesymol.

Rydym yn disgwyl gweld gwelliant o flwyddyn i flwyddyn ym mherfformiad cydymffurfio yn erbyn amodau trwyddedau disgrifiadol.

## Llif

Darparodd Dŵr Cymru ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Adroddwyd bod 11 o weithfeydd trin carthion wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau trwydded Llif Tywydd Sych yn 2019, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion a driniwyd nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod Dŵr Cymru yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol.

Cafodd pump o weithfeydd trin carthion pellach broblemau gyda data yn 2019 y mae'r cwmni'n ymdrechu i'w datrys.

Mae ymchwiliad ar y gweill i 11 o weithfeydd eraill o ganlyniad i gwestiynau dros derfynau llif i driniaeth lawn (FFT) eu trwyddedau, sy'n golygu na allent fod yn trin y llif sy'n ofynnol gan eu trwyddedau.

Mae'r cwmni wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Mae ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i ddau safle ar hyn o bryd oherwydd methiant wrth ailardystio ac un safle y daeth ei ardystiad i ben yn 2019.

# Digwyddiadau hunanadrodd

Hoffem weld cwmnïau dŵr yn hunanadrodd[3] o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd.

Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunanadrodd;
- defnyddio ei ddata i nodi mannau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

[2] Categorïau CCS (Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth) yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio. Maen nhw ar raddfa rhwng 1 a 4. CCS1 yw'r mwyaf tebygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd ac mae CCS4 yn debygol o gael ychydig o effaith neu ddim effaith. Mae Categori CCS3 yn debygol o gael effaith fechan ar yr amgylchedd.
[3] I adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000.


# Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd

Mae'n siomedig bod perfformiad hunanadrodd Dŵr Cymru wedi gostwng o 75% i 73% yn 2019. Gwnaeth y gostyngiad hwn symud ei berfformiad ar draws y trothwy melyn-wyrdd, gan achosi iddo ollwng felly i statws melyn ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd** | % | Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni hunanadrodd amdanynt | 73 (Melyn) |

Byddem yn annog y cwmni i ystyried mentrau eraill y gallai eu gweithredu er mwyn sicrhau cyfradd hunanadrodd uwch.

Fel y dengys y graff isod, roedd perfformiad y cwmni yn y metrig hwn wedi bod yn ansefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn gobeithio y bydd y cwmni'n sefydlu ei gyfradd hunanadrodd er mwyn cadw statws gwyrdd.



# Adnoddau dŵr

## Cydymffurfio â'r drwydded adnoddau dŵr

Parhaodd ffocws ar gydymffurfiaeth â thrwyddedau adnoddau dŵr yn 2019. Gwnaethom gynnal 35 o archwiliadau trwydded ar 26 o safleoedd. Gwnaethom nodi diffyg cydymffurfio â thrwyddedau mewn deg o'r 35 archwiliad. Mae hyn yn cymharu â naw achos o ddiffyg cydymffurfio allan o 16 archwiliad yn 2018.

Mae'n siomedig bod camau gweithredu a rhybuddion wedi'u rhoi ar ddau achlysur gwahanol yn 2019 ar gyfer tri o'r chwe safle nad oeddent yn cydymffurfio yn 2019. Rydym yn disgwyl bod safleoedd sy'n derbyn camau gweithredu a rhybuddion yn cymryd camau priodol i unioni'r diffyg cydymffurfio mewn da bryd er mwyn iddynt gydymffurfio eto ac osgoi ail achos o ddiffyg cydymffurfio. Rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud cynnydd ar hyn ar gyfer 2020.

Roedd pob un o'r deg achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn Categori CCS3 neu CCS4,[4] ac er mai'r rhain yw'r categorïau isaf o ran risg amgylcheddol, rydym yn disgwyl gweld gwelliant o hyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol.

## Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Mynegai diogelwch cyflenwad

Mae'r metrig mynegai diogelwch cyflenwad yn mesur i ba raddau gall y cwmni sicrhau darpariaeth ei lefelau gwasanaeth pan geir cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr (e.e. gwaharddiadau defnyddio dros dro) os oedd y flwyddyn flaenorol yn un sych. Sgôr y mynegai diogelwch cyflenwad ar gyfer 2019 yw 100, felly mae metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn wyrdd.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Mynegai diogelwch cyflenwad** | Sgôr mynegai diogelwch cyflenwad, uchafswm 100 | Pa mor dda fyddai wedi cyflawni darpariaeth ei lefelau gwasanaeth pe bai cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr oherwydd tywydd sych yn 2019 | 100 (Gwyrdd) |

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill.Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y cynllun rheoli adnoddau dŵr diweddaraf yn 2019 gyda'r cynllun

[4] Categorïau CCS (Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth) yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio. Maen nhw ar raddfa rhwng 1 a 4. CCS1 yw'r mwyaf tebygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd ac mae CCS4 yn debygol o gael ychydig o effaith neu ddim effaith. Mae Categori CCS3 yn debygol o gael effaith fechan ar yr amgylchedd.

sychder diweddaraf ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd ar gyfer 2020. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd. I gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-water-resources-management-plan-2019

- Cynllun Sychder Drafft – https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/draft-drought-plan-2020

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning?lang=cy

- Sychder: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought-planning-and-management/?lang=cy

- Canllawiau ar gynlluniau sychder: https://cdn.naturalresources.wales/media/684414/final-wc-drought-plan-guidance-2017.pdf?mode=pad&rnd=131656713580000000

## Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Gwnaeth Dŵr Cymru adrodd yn ei adolygiad blynyddol ar gyfer 2019/20 mai'r defnydd cyfartalog y pen (PCC), sef faint o ddŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio, oedd 160 litr y pen y dydd (l/h/d). Mae hyn yn cynnydd o 2.35 l/h/d o'r cyfartaledd blynyddol blaenorol a adroddwyd, sef 157 l/h/d. Adroddodd hefyd ollyngiadau o 167.95 megalitr y dydd ar gyfer 2019/20, sy'n is na'i darged cytunedig o 171 megalitr y dydd ar gyfer y flwyddyn.

Rydym yn gweithio gydag Ofwat i gyhoeddi amrywiaeth eang o ddata cwmnïau dŵr, sy'n cynnwys cyfraddau gollwng a defnydd o ddŵr, a bydd y data hyn ar gael yn **discoverwater.co.uk**

# Gwaith rheoliadol arall

## Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae'r metrig hwn yn ystyried sut mae Dŵr Cymru wedi cyflawni yn ystod y cyfnod o bum mlynedd a roddir iddo, rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2020, ar gyfer ei Gynllun Rheoli Asedau. Mae'n ystyried canran y cynlluniau a gyflawnwyd o'u cymharu â'r rhai a gynlluniwyd rhwng 2015 a 2020.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2019 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** | **% y gwaith cyflawni arfaethedig** | A yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd ai peidio | 100 (Gwyrdd) |

Yn 2019/20, cyflawnodd Dŵr Cymru bob un o'r 183 o gynlluniau a oedd yn weddill yn ôl yr hyn a gynlluniwyd. Yn ogystal, daliodd y cwmni i fyny â'r un ymchwiliad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oedd heb ei gynnal ers 2018/19, felly mae bellach wedi cyflawni pob un o'r 334 o allbynnau a ddisgwylir dros y cyfnod o bum mlynedd. Felly, roedd wedi cyflenwi 100% o gynlluniau felly mae metrig hwn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, sef Metrig 5, yn parhau i fod â statws gwyrdd.

Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr. Rydym yn disgwyl Dŵr Cymru i gynnal statws gwyrdd ar gyfer 2020.

## **Gorfodi** (uwch na rhybudd)

Yn 2019, cwblhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ein hymateb gorfodi ar gyfer tri digwyddiad llygredd yng Nghymru a oedd yn uwch na rhybudd.

Cafodd Dŵr Cymru ei erlyn am ddigwyddiad llygredd ym mis Gorffennaf 2018 yn ei waith trin dŵr yn Felindre, lle roedd wedi cyflawni troseddau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975. Gwnaeth y llysoedd osod dirwy o £40,000.

Gwnaeth Dŵr Cymru hefyd dderbyn rhybuddiadau ffurfiol yn 2019 ar gyfer dau ddigwyddiad llygredd ym mis Ionawr a mis Mawrth 2017 yn y Waun lle cyflawnodd droseddau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Ni chafodd unrhyw gamau gorfodi yn uwch na rhybudd eu cwblhau yn Lloegr yn 2019.

## Cronfeydd dŵr

Ar ddiwedd 2019, roedd Dŵr Cymru yn rheoli 128 o gyforgronfeydd dŵr mawr â chapasiti uwch sy'n fwy na 10,000$m^3$ yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Diben y gyfraith hon yw atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Rhaid i bob cyforgronfa ddŵr fawr gael archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwylio gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro.

Rydym yn cwrdd â thîm diogelwch argaeau Dŵr Cymru yn rheolaidd i adolygu'r cynnydd ar gwblhau mesurau diogelwch ac i ddarparu tystiolaeth. Mae lefelau cydymffurfio yn uchel ar y cyfan. Yn ystod 2019-20, ymgysylltodd Dŵr Cymru â ni er mwyn cynhyrchu mapiau llifogydd cronfeydd dŵr newydd a fydd yn cael eu rhannu â ni at ddibenion dynodi a chynllunio at argyfwng.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, deallwn fod Dŵr Cymru wedi penodi ymgynghorydd i ddarparu mapiau llifogydd ar gyfer pob un o'i gronfeydd dŵr cofrestredig sy'n dangos y canlyniadau posibl os bydd argae yn torri. Byddwn yn cael copi o'r mapiau hyn er mwyn cwblhau ymarfer dynodi risg, pennu lefel y rheoleiddio sydd ei hangen, a llywio ein cynlluniau ymateb brys gyda phartneriaid proffesiynol.

## Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol ar gyfer Lloegr. Mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu rheoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth y rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnerthedd. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Dŵr Cymru. Mae ein hadroddiad diweddaraf yn cwmpasu’r cyfnod rhwng 2016 a 2019 a gellir dod o hyd iddo ar ein gwe dudalen Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru .

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2020

Gan ystyried yr heriau o ganlyniad i COVID-19 a’r stormydd difrifol a gafwyd ledled Cymru hyd yma yn 2020, rydym yn cydnabod y pwysau y bu'n rhaid i'r cwmni gweithredu oddi tanynt o ystyried yr amgylchiadau digyffelyb. Mae wedi dangos gwydnwch yn ei allu i gynnal gwasanaethau.

Gyda hynny mewn golwg, rydym yn dal i gredu bod y cwmni yn gallu gwella'i berfformiad yn erbyn y metrigau ac rydym wedi nodi ein disgwyliadau ar gyfer perfformiad Dŵr Cymru yn 2020 isod.

**➔ Gwella perfformiad metrigau melyn i gyflawni statws gwyrdd trwy wneud y canlynol:**

- sicrhau bod cydymffurfiaeth yn gwella i 100% ar gyfer cydymffurfiaeth â phob trwydded rifyddol mewn gweithfeydd trin carthion a dŵr a:
  - dangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cydymffurfio ag amodau trwyddedau disgrifiadol ansawdd dŵr
  - parhau i wella cydymffurfiaeth ag amodau trwyddedau adnoddau dŵr
- gwella a sefydlogi'r drefn hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd
- parhau i leihau nifer y digwyddiadau o lygredd carthion

**➔ Cynnal perfformiad metrigau gwyrdd trwy wneud y canlynol:**

- cadw achosion difrifol o lygredd carthion ar sero
- cyflawni 100% o gynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau
- parhau i gyflawni sgôr mynegai diogelwch cyflenwad o 100

**➔ Yn ogystal â metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol uchod, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud y canlynol:**

- canolbwyntio ar leihau digwyddiadau dŵr glân a gwrthdroi'r duedd bresennol o gael perfformiad sy'n gwaethygu

# Atodiad 1: Methodoleg

## Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym

Mae adroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr.

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau Asesu Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cyfuno ein data perfformiad yng Nghymru â'r hyn y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyflwyno i ni ar gyfer yr ardal dan reolaeth Dŵr Cymru a saif o fewn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae metrigau’r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau digwyddiadau llygredd a chynyddu nifer y digwyddiadau a adroddir gan y cwmni
- cydymffurfio â'r trwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr
- cyflenwi cynlluniau gwella amgylcheddol
- cyflenwi cyflenwadau diogel o ddŵr (‘diogelwch cyflenwad')

Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2019. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018 wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i osod dros gyfnod Cynllun Rheoli Asedau cyfredol cwmnïau dŵr, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2020. Mae'r metrigau'n absoliwt yn hytrach na'n gymharol. Felly, dylai pob cwmni sy'n cael ei fesur yn erbyn dangosyddion Asesiad Perfformiad Amgylcheddol allu cyflawni perfformiad da yn erbyn y rhain erbyn 2020 neu cyn hynny.

## Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd i adolygu metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021 ymlaen. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod y metrigau a ddatblygir yn gallu cael eu haddasu yng Nghymru er mwyn caniatáu i Dŵr Cymru gael ei feincnodi yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.

Byddai unrhyw newidiadau i'r ffordd y byddwn yn asesu Dŵr Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn 2022, pan fyddwn yn adrodd ar berfformiad y cwmni ar gyfer 2021.

# Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2011-19

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cwmni wedi perfformio yn erbyn y metrigau ers 2011:

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2015E[5] | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | 132 | 110 | 66 | 59 | 59 | 30.4 | 29.6 | 28.2 | 28.0 | 26.0 |
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd | 2.2 | 3.3 | 1.1 | 2.2 | 1 | 0.6 | 0.6 | 0.28 | 0.83 | 0 |
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** % | 95.6 | 98.6 | 97.7 | 97.8 | 98.6 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.3 |
| **Defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol %** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | Amherthnasol[6] | Amherthnasol[3] |
| **Hunanadrodd digwyddiadau llygredd** % | 37 | 47 | 48 | 60 | 74 | 74 | 68 | 63 | 75 | 73 |
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** % y gwaith cyflawni arfaethedig | 87 | 116 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 99.3 | 100 |
| **Mynegai diogelwch cyflenwad** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 100 | 100 | 98 | 100 | 100 |
| **Sgôr seren y cwmni** | 1 - seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 2-seren | 3-seren | 3-seren |

[5] Mae'r golofn o dan y pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015 sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf newydd ar gyfer Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (2016-2020). Mae hon wedi'i chynnwys at ddibenion cymharu yn unig. Mae'r trothwyau Coch/Melyn/Gwyrdd yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

[6] Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2018. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh dros dro wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

## Allwedd:Sgôr seren y cwmni

| | |
|---|---|
| 4-seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3-seren | Cwmni da |
| 2-seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1-seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |